Y Dinosoriaid

Parchu Eraill / Adnabod Pobl

Miliynau o flynyddoedd yn ôl, ymhell cyn i bobl ymddangos ar y ddaear, roedd anifeiliaid anferth yn crwydro'r ddaear. Roedd y mwyafrif ohonyn nhw lawer mwy na'n mamaliaid ni heddiw. Roedd rhai o'r creaduriaid yma yn 22m o flaen eu trwyn i fôn eu cynffon – gymaint â thair bws. Rhain oedd y dinosoriaid. Roedd un ohonyn nhw sef y BRONTOSAWRWS yn treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yn byw o gwmpas dŵr gan fod ei gorff mor drwm. Ond doedd hwn ddim yn anifail peryglus. Byw ar ddail a phlanhigion oedd y BRONTOSAWRWS a byddai'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn cysgu, hyd yn oed yn ystod y dydd.

Ond creadur gwahanol iawn oedd ALOSAWRWS. Rhedeg ar ei goesau ôl oedd hwn ond roedd ganddo ben anferth a chymaint ag wythdeg o ddannedd miniog. Roedd ALOSAWRWS ymhlith y creaduriaid ffyrnicaf ar y ddaear bryd hynny. Byddai'n hela yn y coedwigoedd a'r corsydd am fwyd – cig yn bennaf. Roedd TYRANNOSAWRWS yn llawer mwy nag ALOSAWRWS gyda dannedd hirach a chryfach. Hwn, yn ôl pob sôn oedd yr anifail mwyaf a gerddodd y ddaear yma erioed.

Pan fyddai'r creaduriaid eraill yn gweld y TYRANNOSAWRWS yn dod i'w gyfarfod byddai pob un yn ffoi am ei fywyd. Ond roedd un yn barod i sefyll ei dir. Y STEGOSAWRWS oedd hwn. Gwyddai STEGOSAWRWS na allai'r un anifail, hyd yn oed y TYRANNOSAWRWS roi ei ddannedd miniog drwy ei groen caled oedd yn gorchuddio'i gorff. Byddai'n defnyddio ei gynffon sbardunog i ymosod ar unrhyw greadur fyddai'n meiddio dod yn agos ato.

Dyma rai o'r dinosoriaid, gair sy'n golygu "madfall ddychrynllyd", oedd yn crwydro'r ddaear 65,000 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Does yna neb erioed wedi gweld dinosor. Bu'r olaf ohonyn nhw farw ymhell cyn i ddyn ymddangos ar y

ddaear. Ond rydym yn gwybod sut greaduriaid oedd rhain gan fod eu hesgyrn a rhannau o'u cyrff wedi eu claddu yn y ddaear. Bob blwyddyn, mewn gwahanol rannau o'r byd, mae pobl yn darganfod olion y creaduriaid anferth hyn.
O'r hyn rydym yn ei wybod amdanyn nhw gwyddom fod rhai ohonyn nhw'n greaduriaid rheibus, yn "fadfallod dychrynllyd" yn wir. Ond er fod eraill yn fawr ac yn hyll eto i gyd roedden nhw'n ddigon diniwed.
Mae hi'n hawdd iawn beirniadu yn ôl edrychiad. Efallai fod gan berson sy'n edrych yn gas a milain galon gynnes a charedig. A'r person sy'n dlws a phrydferth yn gallu bod yn frwnt ei dafod ac yn angharedig. Mae'n rhaid ddysgu dod i adnabod pobl.

Wnei di fy nysgu O Dduw, i barchu
pawb ac i wneud fy ngorau i bawb. Amen.

✦ Ysgrifennwch ychydig o fanylion am y gwahanol ddinosoriaid yn y stori.
✦ Ydi'r hyn sydd ym mharagraff olaf y stori yn wir, tybed?